COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 20 HYDREF 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | J Gebbie |
| RM Granville | CA Green | DG Howells | M Hughes |
| A Hussain | M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JE Lewis | JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables | MC Voisey |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | DBF White |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | JE Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, DK Edwards, T Giffard, RM James, B Jones a/ac B Sedgebeer

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Prif Cyfreithiwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

582. DAU FUNUD O DAWELWCH YN DEYRNGED I'R DIWEDDAR GYNGHORYDD PHILIP WHITE AC ER PARCH AT SYR DAVID AMESS

Cyn parhau at fusnes yr agenda, gofynnodd y Maer i'r Aelodau a'r Swyddogion ymuno ag ef mewn dau funud o dawelwch er parch i’r diweddar Philip White, cyn Aelod o'r Cabinet a’r Cynghorwr dros ward Caerau, ac i Syr David Amess, AS Ceidwadol Southend West.

Dywedodd y Maer nad oedd geiriau’n ddigon i gyfleu maint a thristwch y golled o’u cyfaill a’u cydweithiwr, y Cynghorydd White. Ychwanegodd ei fod yn meddwl am y teulu yn y cyfnod trasig hwn, a’n cynnig ei gydymdeimlad diffuant.

Yna rhoddodd yr Arweinydd y deyrnged ganlynol ar ran y Cyngor.

'Bydd pob cyd-Aelod wedi clywed am farwolaeth sydyn ein cyfaill a'n cydweithiwr, y Cynghorydd Phil White.

Fel y gwyddoch, bu’r Cynghorydd White yn yr ysbyty gyda Covid-19. Brwydrodd hyd at y diwedd, ond yn anffodus bu farw ddiwedd yr wythnos ddiwethaf.

Roedd Phil yn angerddol dros bobl, ei gymuned, a'i gredoau, a hynny ymhell cyn iddo ddod yn aelod o'r awdurdod yn 2008.

Mynnodd le yn hanes diwydiannol ein cenedl fel un o'r glowyr blaenllaw ym mhryniant ac ail-agoriad Glofa'r Tŵr. Dyma'r lofa gyntaf yn hanes Prydain i fod dan berchnogaeth a rheolaeth ei gweithwyr ei hun, ac fe'i rhedwyd yn llwyddiannus ac yn broffidiol nes cloddiwyd y glo yn llwyr yn 2007.

Ni wnaf anghofio, pan oedd Llywodraeth y DU yn cynnal eu hadolygiad ynni yn 2006, iddo eistedd ochr yn ochr â Tyrone O'Sullivan a'r Ysgrifennydd NUM Wayne Thomas i annerch y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin. Nid oedd Phil yn un am gilio pan oedd yn credu mewn rhywbeth, ac yn sicr gwnaeth ei farn yn hysbys y tro hwnnw.

Yn fuan wedi hynny, safodd yn yr etholiad i gynrychioli cymunedau Caerau a Nantyffyllon yn llwyddiannus.

Oherwydd ei rinweddau, buan iawn y cafodd ei benodi'n Aelod Cabinet dros Gymunedau.

Parhaodd i eistedd fel aelod o'r Cabinet drwy gydol y rhan fwyaf o'r tair blynedd ar ddeg bu'n gwasanaethu fel cynghorydd, hyd at ei ymddeoliad o'r rôl y llynedd, bryd hynny ef oedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar.

Ond dim ond megis dechrau ydym ni, wrth gwrs, os ydym am drafod gwasanaeth cyhoeddus y Cynghorydd White.

Un o gyfrifoldebau niferus y Cynghorydd White oedd bod yn hyrwyddwr brwdfrydig a gweithgar i'r cyngor dros bobl hŷn, plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys cadeirio ein Pwyllgor Rhianta Corfforaethol a dod yn is-gadeirydd angerddol ar ein Panel Maethu. Roedd yn eiriolwr iechyd meddwl brwd ac yn falch o'n cynrychioli yng Ngofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ef oedd cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Nantyffyllon, ac yn nheyrnged yr ysgol iddo disgrifiwyd ef fel cyfaill ffyddlon a chefnogol iawn i staff a disgyblion, fel aelod ymroddedig a gwerthfawr o deulu Nantyffyllon, a bydd yn golled enfawr i gymuned ein hysgol.

Gwasanaethodd y Cynghorydd White yn ddiflino, a gwn iddo wneud hynny wrth frwydro materion iechyd sylweddol ei hun, er na adawodd hynny ei atal rhag cyflawni ei gyfrifoldebau, ac mae ei ymroddiad yn ysbrydoliaeth i ni gyd.

Yn y dyddiau ers cyhoeddi ei farwolaeth, rydym wedi cael ein llethu gan negeseuon o gydymdeimlad a theyrngedau gan ystod eang o bartneriaid yn ogystal ag unigolion ar draws pob plaid wleidyddol.

Maent i gyd wedi'i gwneud yn amlwg iawn bod Phil yn gynrychiolydd etholedig uchel ei barch a phoblogaidd, ac yn ŵr bonheddig.

Nid wyf am ddyfynnu unrhyw un yn benodol, ond er mwyn rhoi syniad i chi o'r parch a roddwyd iddo, dywedodd CLILC fod 'Phil yn gymeriad mawr. Y llawn bywyd a hiwmor, roedd yn gefnogol iawn ohonom, a bydd hiraeth amdano ymhlith ei ffrindiau niferus'.

Yn yr un modd, adleisiodd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf deimladau llawer ohonom trwy ddweud fod Phil yn 'angerddol dros gefnogi pobl. Gweithiodd yn ddiflino i

wneud gwahaniaeth mawr, drwy gynrychioli, trwy rymuso, a thrwy sefyll dros ei gymuned.'

Roedd cael gwasanaethu ochr yn ochr â'r Cynghorydd Gwyn yn bleser ac yn fraint. Byddai wastad yn cynnig cefnogaeth wych i'w gydweithwyr, yn enwedig ein staff a'n gweithwyr, byddai wastad yn gwneud ei orau glas i wasanaethu pobl y fwrdeistref sirol, a bydd pawb a oedd yn ei adnabod ac a fu'n gweithio ochr yn ochr ag ef yn ei golli'n fawr.

Wrth gwrs, yn bennaf oll, bydd colled fawr ar ei ôl fel gŵr, mab, tad, a thad-cu annwyl.

Gyda'r faner y tu allan i'r Swyddfeydd Dinesig yn Stryd yr Angel ar hanner y mast i nodi colli un o'n haelodau, y cyfan sy'n weddill i mi ei ddweud, ar ran pob un ohonom, yw ein bod yn cydymdeimlo o'r galon â theulu a ffrindiau Phil, yn enwedig i'w weddw Irene, ei fam, ei blant, a'i wyrion'.

Rhoddwyd teyrngedau pellach i'r Cynghorydd White yn eu tro gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorwyr RC Collins, G Howells, CE Smith, RE Young, A Hussain, Alex Williams, MC Voisey, G Thomas a J Radcliffe.

Daeth y Maer i gasgliad trwy ddweud bod yr Aelodau wedi cynnig geiriau gwych mewn teyrnged i gydweithiwr annwyl a fydd yn gadael bwlch mawr ar ei ôl.

583. <u>DATGANIADAU O FUDDIANT</u>

Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant:

Y Cynghorydd HM Williams, buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Abercerdin.

Y Cynghorydd Amanda Williams, buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel Llywodraethwr ALl ar gyfer Ysgol Gyfun Brynteg.

Y Cynghorydd N Burnett, buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel Llywodraethwr ALl ar gyfer Ysgol Gyfun Brynteg, yn ogystal â buddiant sy'n rhagfarnu yn yr un eitem, oherwydd bod aelod agos o'r teulu yn rhan o sefydliad a allai elwa o'r adroddiad. Gadawodd y Cynghorydd Burnett y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Y Cynghorydd J Gebbie, buddiant personol yn eitem 13 ar yr Agenda, fel aelod o Bwyllgor yr NJC.

584. <u>CADARNHAU COFNODION</u>

<u>PENDERFYNIAD:</u> Bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 15 Medi 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir, ar yr amod bod y Cynghorydd E Venables yn cael ei ychwanegu at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol.

585. <u>I DDERBYN CYHOEDDIADAU ODDI WRTH:</u>

<u>Y Maer</u>

Dechreuodd y Maer ei gyhoeddiadau i'r Cyngor gyda datganiad personol fel a ganlyn:-

Ymddengys bod sylw diweddar a wnes mewn sgwrs â rhywun ar fy nghyfrif Facebook personol wedi digio rhai aelodau o'r wrthblaid, gan eu bod wedi'i atgynhyrchu ar sawl tudalen ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â galwadau i mi ymddiswyddo. Er eglurder,

roedd fy sylw'n ymwneud â'r gystadleuaeth dybiedig rhwng fy rôl i fel Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a rôl Maer Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Yn fwy penodol, dywedais fy mod yn edrych ymlaen at ei 'ei weindio i fyny' mewn digwyddiad lle’r oedd y ddau ohonom am fod yn bresennol, gan gyfeirio ato mewn jest fel 'maer bach', a gwneud jôc fod ei gadwyn 'fwy na thebyg yn fwy na fy un i'.

Nid neges gyhoeddus oedd hon i fod, roeddwn ar ddeall mai sgwrs breifat oedd hi, ond cyn gynted ag y sylweddolais ei bod yn gyhoeddus, dileais y neges ar unwaith er mwyn osgoi cynhyrfu neu ddigio neb. Nid oeddwn yn bwriadu niweidio neu sarhau trwy wneud hyn, ac mae'n ddrwg gennyf os pechais unrhyw unigolyn neu sefydliad, nid hynny oedd fy mwriad o gwbl.

Ni fu llawer o ymweliadau Maerol ers cyfarfod diwethaf o'r Cyngor, ond yr oeddwn yn falch o gael fy ngwahodd gan Steve Brace o Bridgend Athletics i ail-lansio’r trac athletau a'r cyfleusterau yn Newbridge Fields ar ôl eu hadnewyddu. Roedd nifer o sêr y byd chwaraeon yno, gan gynnwys y Cyng. Eric Hughes, sydd bellach yn ei 80au ac sy'n dal i redeg yn rheolaidd er gwaethaf llawdriniaeth fawr ar y galon. Mae Bridgend Athletics wedi cynhyrchu nifer o sêr rhanbarthol, sêr cenedlaethol, sêr byd eang a sêr Olympaidd dros y blynyddoedd, a hir oes i’r traddodiad hwnnw wrth iddynt ddechrau ar bennod nesaf eu datblygiad fel clwb.

Bûm yn ymweld ag enillwyr gwobrau Dinasyddiaeth y Maer o'r cyfnod pan oedd y Cynghorydd Stuart Baldwin yn Faer, gan na chyflwynwyd y gwobrau hynny oherwydd y pandemig. Pleser mawr oedd ymweld ag Isabella Evans yr wythnos diwethaf, sydd yn 15 oed ac wedi gwneud gwaith anhygoel wrth ddysgu iaith arwyddion o'r enw Makaton i helpu gyda'i brodyr a'i chwiorydd a'u datblygiad. Mae'n amlwg ei bod yn un o sêr y dyfodol.

Yna, ymwelais ag Ysgol Gyfun Pencoed a'u Grŵp Gofalwyr Ifanc. Gwych oedd dysgu am y gefnogaeth y mae’r ysgol yn ei roi iddynt, a chlywed rhai o'u straeon am sut y maent yn helpu ac yn cefnogi eu rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd cyn yr ysgol ac ar ôl ysgol, gwnaeth i mi sylweddoli pa mor rhyfeddol yw'r bobl ifanc hyn, a’u bod yn saff o ddod yn bobl hyd yn oed yn fwy rhyfeddol yn y dyfodol.

Yn olaf, es yn fy mlaen i i Glwb Rygbi Mynydd Cynffig i gyflwyno gwobr i Chris Leyshon sy'n gwneud gwaith anhygoel a hanfodol wrth godi arian a gwella ymwybyddiaeth o Ganser y Prostad. Dyma'r math mwyaf cyffredin o ganser ymhlith dynion yn y DU, gan effeithio ar 1 o bob 8, ac mae hyn yn cynyddu i 1 o bob 3 os oes hanes teuluol o ganser y prostad. Nid yw dynion yn cael eu sgrinio yn awtomatig yn y wlad hon, ac felly byddwn yn argymell bod pob dyn dros 50 oed, neu unrhyw un sydd â phryder neu hanes teuluol, i fewngofnodi i wefan Prostate Cymru i gwblhau rhestr wirio syml a fydd yn dweud wrthych a ddylech ymweld â'ch meddyg i ofyn am brawf gwaed PSA.

Bydd rownd nesaf Gwobrau Dinasyddiaeth Flynyddol y Maer yn cael ei lansio'n fuan a gwahoddir enwebiadau o ddydd Llun 8 Tachwedd. Mae’r gwobrau yn agored i bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â grwpiau a busnesau lleol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan CBSP lle gellir lawrlwytho ffurflen enwebu, a bydd yr aelodau hefyd yn derbyn e-bost gyda'r holl wybodaeth berthnasol. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau yw Dydd Gwener 7 Ionawr 2022, a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn digwyddiad ym mis Mawrth 2022.

Bydd y Maer yn cynnal digwyddiad Elusennol Cyn-Nadolig ar ddydd Sadwrn 27 Tachwedd yn Heronston Hotel & Spa gyda hypnotydd llwyfan comedi a cherddoriaeth gan Lee Jukes o Bridge FM. Mae tocynnau yn £22.50 ac yn cynnwys pryd bwffe. Mae tocynnau'n gwerthu'n gyflym, felly anogodd y rhai sydd â diddordeb i brynu’n fuan. Mae'r

digwyddiad yn agored i bawb a byddai'n wych gweld cynifer o Gynghorwyr yno â phosibl, ynghyd â'u partneriaid, eu teulu a'u ffrindiau.

Hefyd, roedd wrthi'n trefnu Raffl Nadolig a bydd tocynnau ar werth yn fuan am £2 yr un, gyda gwobr gyntaf o £200 mewn arian parod. Roedd yn bwriadu tynnu'r tocynnau buddugol ddydd Mercher 15 Rhagfyr, ychydig ar ôl cyfarfod y Cyngor ar gyfer y mis hwnnw. Roedd y Maer wedi derbyn cefnogaeth wych o ran gwobrau raffl gan nifer o fasnachwyr Tref Pen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â Sony, Pencoed ac Asda, Pen-y-bont ar Ogwr.

Ychwanegodd y byddai cefnogaeth yr Aelodau â'r uchod yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gan nad oes cymorth gan swyddogion na phwyllgor elusennol mwyach wrth drefnu unrhyw weithgareddau Maerol i gasglu arian ar gyfer Lads & Dads a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, ac felly roedd yn gobeithio y byddai'r digwyddiadau hyn yn llwyddiannus, gan ei fod ef a'i wraig wedi gwneud llawer o waith wrth eu trefnu, a byddent yn parhau i wneud hynny am weddill eu tymor fel Maer a Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

586. <u>DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD</u>

Dywedodd yr Arweinydd fod pawb wedi cael sioc yr wythnos diwethaf pan laddwyd aelod seneddol ymroddgar wrth iddo gynnal cymhorthfa gyngor. Cafodd Syr David Amess AS ei drywanu mewn eglwys yn ei etholaeth ei hun yn Southend West wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel cynrychiolydd etholedig.

Rhoddwyd teyrngedau teimladwy iawn i Syr David a'i gyfraniad i'r senedd a'i waith o hyrwyddo Southend. Fodd bynnag, yn y sesiwn honno o'r senedd clywsom hefyd pa mor gyffredin yw'r gamdriniaeth o ASau erbyn hyn, a phob un wedi'u cam-drin, wedi'u bygwth, wedi dioddef ymosodiadau, a bywydau sawl un wedi'u bygwth.

Aeth seneddwyr o bob rhan o'r siambr ati i'n hatgoffa fod yr hyn sy'n gyffredin rhyngom yn bwysicach o lawer na'r gwahaniaethau, a bod rhaid inni drysori'r bondiau hynny a'r gwerthoedd a rennir rhyngom. Gwnaed un pwynt yn gyson, waeth beth yw'r gwahaniaethau gwleidyddol rhyngom, yr ydym i gyd yma am yr un rheswm, sef ceisio gwneud yr hyn yr ydym ni'n ei gredu sydd orau i'r rhai yr ydym yn eu cynrychioli.

Roedd yr Arweinydd yn meddwl am hyn pan glywodd adroddiad arall ar y newyddion, y tro hwn am AS y Rhondda a oedd wedi cael bygythiad ar ei bywyd gan aelod o'r cyhoedd dros y penwythnos. Roedd yn dipyn o agoriad llygaid i ddysgu bod dyn wedi'i arestio yma yn y fwrdeistref sirol yn sgil hyn.

Os ydym am ddysgu unrhyw beth o'r digwyddiadau trasig hyn, yn sicr dylem ddysgu bod angen am fwy o ffocws ar barchu ein gilydd, a'r gallu syml i allu trafod ac anghytuno heb i hynny arwain at ddinistrio neu ymosod ar unigolion, neu i fynd ati i ledaenu twyll wybodaeth niweidiol.

Nid oedd ganddo ddiddordeb yn y math hwnnw o wleidyddiaeth, a gobeithiai fod yr Aelodau i gyd yn cytuno bod angen llawer mwy o ffocws ar barchu ein gilydd, fel cydweithwyr gwleidyddol, fel bodau dynol, ac fel cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd, waeth pa blaid y maent yn perthyn iddi neu beidio.

587. <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad gan y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, a'i ddiben oedd cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2020-21 (yn Atodiad A i'r adroddiad) i'r Cyngor er mwyn iddyn nhw ei ystyried a'i gymeradwyo.

I roi rhywfaint o'r cefndir, eglurodd ei bod yn rhai i'r awdurdod, o dan adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn unol â'r canllawiau statudol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gyhoeddi ei asesiad o berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol cyn 31 Hydref.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2018-23, wedi'i ddiwygio ar gyfer 2020-21. Er mwyn rhoi ystyriaeth i effaith sylweddol COVID-19 ar flaenoriaethau, diwygiwyd y Cynllun a gwnaed rhai addasiadau iddo, a chytunodd y Cyngor arnynt ym mis Medi 2020. O fis Mawrth 2020 ymlaen, o ganlyniad i Covid-19, canolbwyntiodd y Cynllun ar y blaenoriaethau oedd â mwy o frys.

Diffinia'r Cynllun diwygiedig 32 o ymrwymiadau i gyflawni'r tri amcan llesiant ac mae'n nodi 46 o fesurau llwyddiant i fonitro cynnydd. Fodd bynnag, er mwyn ystyried COVID-19 ac ailgyfeirio adnoddau, dilëwyd y targedau ar gyfer 14 o fesurau llwyddiant. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd data ar gael ar gyfer 7 mesur llwyddiant, rhai ym maes addysg yn bennaf yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ohirio arholiadau a defnyddio trefniadau amgen i bennu graddau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol, a baratowyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor yn 2020-21 wrth gyflawni ei ymrwymiadau a'r canlyniadau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan ddefnyddio mesurau llwyddiant a thystiolaeth gysylltiedig arall.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, fod y Cyngor wedi gwneud 32 o ymrwymiadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion llesiant. Roedd 13 (40.6%) o'r rhain wedi'u cwblhau'n llwyr gyda 19 (59.4%) wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'u cerrig milltir.

O'r 46 dangosydd a nodwyd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol, gellir cymharu 25 yn erbyn eu targed: cyrhaeddodd 14 (48%) eu targed, roedd 2 (8%) o fewn 10% o'r targed, ac roedd 11 (44%) wedi methu'r targed o fwy na 10%. Ceir gwybodaeth fanwl am berfformiad y Cyngor yn Atodiad A yr adroddiad, gan gynnwys perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion, a chanmolodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad o ystyried yr anawsterau a wynebodd awdurdodau lleol ers y pandemig. Dangosodd yr Adroddiad Blynyddol gryn gynnydd yn erbyn amcanion lles y Cyngor a'i saith nod.

Ar ôl ei gymeradwyo, cadarnhaodd y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i rannu â rhanddeiliaid. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd yn cael eu cynhyrchu a'u rhoi yn llyfrgelloedd cyhoeddus y Cyngor.

Canmolodd yr Arweinydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 ynghyd â'r holl staff yn CBSP a fu'n gweithio'n ddiflino i'w gwneud mor braf i'w ddarllen. Teimlai fod staff wedi mynd y tu hwnt i'r galw o ystyried pwysau'r pandemig, a oedd yn dal i fodoli, a rhoddodd enghreifftiau o hyn yng ngwahanol feysydd gwasanaeth y Cyngor. Pan welir lle i wella, ychwanegodd, maent yn mynd ar drywydd hynny, nid yn unig trwy barhau i gefnogi ein gweithwyr, ond yr Aelodau hefyd, fel aelodau'r o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

Roedd Aelod yn cefnogi barn yr Arweinydd, ond gofynnodd sut yr oedd CBSP yn cymharu ag 'Awdurdodau tebyg' eraill o ran perfformiad.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd llawer o'r dangosyddion cenedlaethol wedi'u coladu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a hynny am resymau amlwg, h.y. bod y ddyletswydd hon wedi'i hatal. Fodd bynnag, hysbyswyd

Swyddogion yn ddiweddar y byddai'r rhain (h.y. y PAM) yn cael eu casglu'n ôl-weithredol, ond y byddai hynny yn bennaf er mwyn llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol yn hytrach nac er mwyn cymharu. Ychwanegodd nad oedd rhai o'r Dangosyddion Addysg wedi'u casglu at ddibenion cymharu a chyhoeddi ac, oherwydd hynny, nid oedd yn hawdd gwneud cymariaethau o ran gwybodaeth dangosyddion perfformiad lleol. Fodd bynnag, roedd y rhain yn cael eu cymharu'n fwy cenedlaethol, drwy gyflwyno tablau i Awdurdodau. Felly, roeddem yn gallu cymharu perfformiad ag awdurdodau lleol eraill tebyg yma. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn edrych ar sut yr oedd awdurdodau cyfagos eraill yn rhedeg eu gwasanaethau er mwyn cymharu, er mwyn canfod a oeddent yn eu gweithredu'n well na CBSP o ran eu prosesau, fel bo modd i ni fabwysiadu'r dull hwnnw o weithredu hefyd.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2020-21 (yn Atodiad A i'r adroddiad).

588. RHEOLI'R TRYSORLYS - ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN 2021-22

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, er mwyn:

- cydymffurfio â gofyniad 'Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i gynhyrchu adroddiadau Rheoli Trysorlys;
- i geisio cymeradwyaeth o weithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2021-22 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021 a'r Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys rhagamcanol ar gyfer 2021-22.

Atgoffodd yr Aelodau mai rheoli'r trysorlys yw'r gwaith o reoli llif arian parod, benthyca, a buddsoddiadau'r Cyngor, a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Cyngor yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Felly, mae nodi, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus yn rhan ganolog o reolaeth ariannol ddarbodus gan y Cyngor.

Arlingclose yw cynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor, fel y gŵyr y Cyngor. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd i'r Cyngor yn cynnwys:

- cyngor ac arweiniad ar bolisïau, strategaethau ac adroddiadau perthnasol
- cyngor ar benderfyniadau buddsoddi
- hysbysiad o sgoriau credyd a newidiadau
- gwybodaeth arall am ansawdd credyd
- cyngor ar benderfyniadau rheoli dyledion
- cyngor cyfrifyddu
- adroddiadau ar berfformiad y trysorlys
- rhagolygon o gyfraddau llog
- cyrsiau hyfforddi

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod TMS 2021-22 wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2021 gyda'r Adroddiad Hanner Blwyddyn i'w gyflwyno ar 20 Hydref 2021.

Mae crynodeb o'r gweithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer hanner cyntaf 2021-22 i'w cael yn nhabl 1 yn Atodiad A i'r adroddiad. Dywedodd, ers dechrau'r flwyddyn ariannol, fod gan y Cyngor arian dros ben ar gyfer buddsoddi. Ym mis Ebrill, derbyniodd y Cyngor ddau randaliad o £12.6 miliwn yr un o gyllid craidd Llywodraeth Cymru (Grant Setliad Refeniw), a llwyddodd i gario arian grant ychwanegol ymlaen o 2020-21. O ganlyniad, y balans ar fuddsoddiadau ar 30 Medi 2021 oedd £79.84 miliwn, gyda chyfradd llog

gyfartalog o 0.06%. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd pan oedd y gyfradd gyfartalog yn 0.24%, ac mae'n dangos effaith y gostyngiadau mewn cyfraddau llog o ganlyniad i'r pandemig.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid nad yw'r Cyngor wedi cymryd benthyciadau hirdymor ers mis Mawrth 2012. Roedd TMS 2021-22 yn rhagweld y byddai angen i'r Awdurdod fenthyca £30.37 miliwn yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd hyn yn rhagdybio y byddai gan y Cyngor £43 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio yn y tymor byr i ariannu gwariant. Ar 31 Mawrth 2021, roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn £114 miliwn, cynnydd o £83 miliwn o gymharu â 31 Mawrth 2020, cynnydd na ragwelwyd pan gymeradwywyd y TMS. Derbyniodd y Cyngor £20.6 miliwn o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru, a oedd yn fwy na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â grantiau ychwanegol pellach o £8.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn chwarter olaf 2020-21, a derbyniadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £2.9 miliwn

Yn seiliedig ar y rhaglen gyfalaf bresennol a'r defnydd disgwyliedig o gronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd ynddo, disgwylid na fydd gofyniad am fenthyca hirdymor newydd yn 2021-22. Mae'r manylion am y gwariant cyfalaf a ragwelir i'w cael yn y Strategaeth Gyfalaf 2021-22, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2021, ac yn adroddiad Monitro Cyfalaf Chwarter 2 a oedd yn mynd i'r Cyngor ar 20 Hydref 2021.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid at Dabl 4 yn adran 4 o Atodiad A, a oedd yn manylu ar symudiad y buddsoddiadau yn ôl y math o barti i gontract, ac yn dangos y balansau cyfartalog, y llog a dderbyniwyd, y cyfnod gwreiddiol a'r cyfraddau llog ar gyfer hanner cyntaf 2021-22.

Roedd Atodiad A yn gosod manylion yr amcangyfrifon ar gyfer 2021-22 a nodwyd yn TMS y Cyngor yn erbyn amcanestyniadau cyfredol, ac roedd y rhain yn adlewyrchu bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â therfynau cymeradwy.

Diffiniad y Cyngor o ansawdd credyd uchel yw sefydliadau â gwarantau statws credyd o A- neu uwch, ac mae Atodiad B i'r adroddiad yn dangos y tabl cyfatebol ar gyfer sgoriau credyd ar gyfer Fitch, Moody's a Standard & Poor's ac yn esbonio'r gwahanol raddau buddsoddi.

Daeth i gasgliad drwy gynghori fod Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad canol blwyddyn o'i bolisïau, ei arferion a'i weithgareddau rheoli'r trysorlys. Canlyniad yr adolygiad hwn yw nad oes angen unrhyw newidiadau yn CBSP.

<u>PENDERFYNIAD:</u> Cymeradwyodd y Cyngor weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2021-22 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021 a'r Dangosyddion Rheoli Trysorlys rhagamcanol ar gyfer 2021-22.

589. <u>Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF - ADRODDIAD CHWARTER 2 2021-22</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd:

- cydymffurfio â gofyniad 'Y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (argraffiad 2017)' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfalaf ar gyfer 2021-22 ar 30 Medi 2021 (Atodiad A)
- ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021-22 i 2030-31 (Atodiad B)
- nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill a ragwelir ar gyfer 2021-22 (Atodiad C).

Eglurodd fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003, fel y'u diwygiwyd, yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer y rheolaethau cyllid cyfalaf a chyfrifyddu, gan gynnwys y rheolau ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a'r hyn y dylid ei drin fel gwariant cyfalaf. Maent yn addasu arferion cyfrifyddu mewn gwahanol ffyrdd i atal effeithiau andwyol ar adnoddau refeniw awdurdodau.

Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth hon, mae'r Cyngor yn rheoli ei weithgareddau Rheoli Trysorlys a Chyfalaf yn unol â'r canllawiau cysylltiedig a ddangosir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cyngor, ar 24 Chwefror 2021, wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf o £62.363 miliwn ar gyfer 2021-22 fel rhan o raglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2021-22 a 2030-31. Y tro diwethaf i'r rhaglen gael ei diweddaru a'i chymeradwyo gan y Cyngor oedd ar 21 Gorffennaf 2021.

Rhoddodd yr adroddiad hwn y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Monitro'r Rhaglen Gyfalaf chwarter 2 2021-22
- Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021-22 hyd 2030-31
- Monitro'r Strategaeth Gyfalaf
- Dangosyddion darbodus a dangosyddion eraill

Rhoddodd yr adran hon o'r adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2021-22, ers y tro diwethaf iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ac ers ymgorffori unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. Ar hyn o bryd, mae gan y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2021-22 gyfanswm o £76.600 miliwn, daw £54.378 miliwn ohono o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn, gyda'r £22.222 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol.

Roedd Tabl 1 yr adroddiad yn adlewyrchu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth o'r safle Cyngor a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2021 hyd chwarter 2.

Crynhodd Tabl 2 y tybiaethau ariannu presennol ar gyfer rhaglen gyfalaf 2021-22. Rheolir yr adnoddau cyfalaf i sicrhau'r budd ariannol mwyaf posibl i'r Cyngor. Gallai hyn gynnwys adlinio cyllid i wneud y mwyaf o grantiau'r llywodraeth.

Nodwyd bod nifer o gynlluniau eisoes yn gofyn am lithriant cyllideb i'r blynyddoedd i ddod (2022-23 a thu hwnt). Yn chwarter 2, cyfanswm y llithriant y gofynnwyd amdano oedd £12.826 miliwn. Amlinellwyd manylion y rhain ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Ers yr adroddiad cyfalaf diwethaf a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021, mae nifer o gynlluniau newydd a ariennir yn allanol wedi'u cymeradwyo yn ogystal â chynlluniau wedi'u hariannu'n fewnol, ac maent wedi'u hymgorffori yn y rhaglen gyfalaf, fel y nodir ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad. Rhoddodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid grynodeb o'r rhain er budd yr Aelodau

Ym mis Chwefror 2021, cymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021-22, a oedd yn cynnwys Dangosyddion Darbodus 2021-22 i 2023-24, ynghyd â rhai dangosyddion lleol.

Roedd Atodiad C i'r adroddiad yn manylu ar y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2020-21, y dangosyddion amcangyfrifedig ar gyfer 2021-22 a nodir yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2021-22, yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig. Mae'r rhain yn dangos bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r terfynau cymeradwy.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn gofyn am fonitro buddsoddiadau rheoli nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys a rhwymedigaethau hirdymor eraill. Mae gan y Cyngor bortffolio buddsoddi eisoes, ac mae 100% ohono wedi'i leoli yn y Fwrdeistref Sirol, yn bennaf y sectorau swyddfa a diwydiannol. Yn gyffredinol, mae'r ffrydiau incwm wedi'u gwasgaru rhwng y buddsoddiadau mewn swyddfeydd sengl ac aml-osod ym Mharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, a’r buddsoddiadau mewn ystadau diwydiannol aml-osod a'r rhent tir rhydd-ddaliad. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod cyfanswm gwerth yr Eiddo Buddsoddi yn £5.090 miliwn ar 31 Mawrth 2021.

Roedd gan y Cyngor hefyd nifer o rwymedigaethau hirdymor eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf, fel y nodir ym mharagraff 4.12 o'r adroddiad.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:

- nodi diweddariad Chwarter 2 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2021-22 hyd at 30 Medi 2021 (Atodiad A)
- cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B)
- nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill a ragwelir ar gyfer 2021-22 (Atodiad C.

590. POLISI TALIADAU ATODOL AR SAIL Y FARCHNAD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a’i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i'r Polisi Taliadau Atodol Ar Sail Y Farchnad.

Esboniodd nad oedd darpariaeth o fewn y Cyngor ar hyn o bryd ar gyfer gwneud taliadau atodol ar sail y farchnad. Roedd gweithredu Cydgytundeb Gwerthuso Swyddi Statws Sengl y Cyngor ym mis Medi 2013 yn golygu bod pob un o'r hen daliadau atodol ar sail y farchnad wedi dod i ben wrth gyflwyno'r strwythur cyflog a graddio newydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Polisi Cyflog y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2021 yn cadarnhau'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at y ffaith y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ail-gyflwyno taliadau atodol ar sail y farchnad er mwyn cydnabod yr heriau a wynebir wrth recriwtio a chadw staff mewn rhai proffesiynau ar y strwythur cyflog presennol.

Byddai cyflwyno'r Polisi Taliadau Atodol ar Sail y Farchnad yn mynd i'r afael â mater nad oedd cynllun gwerthuso swyddi a strwythur graddio'r cyngor yn ei ystyried, ffactorau marchnad megis cyfraddau cyflog y farchnad neu alw amrywiol am sgiliau yn y farchnad.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Gweithredol at y Polisi Taliadau Atodol ar Sail y Farchnad sydd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a fyddai’n galluogi'r Cyngor i ymateb i unrhyw faterion recriwtio a chadw drwy gynyddu’r cyflog a ddyfarnwyd i swydd am gyfnodau byr, a hynny heb orfod newid y radd gwerthuso a bennwyd i’r swydd. Bydd hyn yn sicrhau bod

yr egwyddorion o fewn y cynllun gwerthuso swyddi wrth gynnal cyflog cyfartal yn cael eu cadw.

Pwysleisiodd y byddai Taliadau Atodol ar Sail y Farchnad ond yn cael eu defnyddio pan fo angen, a byddai'n rhaid eu hystyried yn ofalus a chyflwyno achos busnes cadarn ar eu cyfer, gan gynnwys tystiolaeth wrthrychol glir ar yr holl ffactorau perthnasol sydd ar waith.

Daeth y Prif Weithredwr â'r adroddiad i ben trwy ddweud eu bod wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr undebau llafur gyda chynigion yr adroddiad a'u bod wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi newydd hwn. Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r polisi, mae partneriaid yr Undebau Llafur wedi cydnabod y bydd angen cytuno ar atodiad i Gydgytundeb Gwerthuso Swyddi Statws Sengl y Cyngor yn unol â hynny.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn cefnogi'r adroddiad gan ei fod yn mynd i'r afael â mater a fu'n broblem i'r Cyngor ers peth amser, byddai'r Polisi yn helpu i lenwi swyddi allweddol lle cafwyd anhawster recriwtio yn y gorffennol, a byddai hynny yn ei dro yn cyfrannu at wneud ein gwasanaethau'n fwy gwydn.

Holodd Aelod, gan nodi nad oedd yn erbyn y Polisi, sut yr oedd yr Awdurdod yn bwriadu gweithredu i ddarbwyllo staff mewn swyddi allweddol rhag gadael y Cyngor a symud i Awdurdod sydd â'r un math o bolisi ar waith i gefnogi swydd debyg, ond â chyflog gwell.

Atebodd y Prif Weithredwr trwy ddweud nad oedd modd osgoi'r perygl o golli staff os yw Awdurdodau eraill yn talu cyflogau gwell na CBSP am swydd debyg. Fodd bynnag, roedd y Polisi'n anelu at recriwtio a chadw staff, ac ond un o nifer o ddulliau yr oedd yr Awdurdod yn eu rhoi ar waith ydoedd, gan gynnwys taliadau gwell ar gyfer rhai swyddi lle gwelwyd problemau hanesyddol o ran recriwtio a chadw staff.

Nododd Aelod, o ran y Polisi, y byddai'r Taliadau Atodol ar Sail y Farchnad yn gymwys am 2 flynedd ac yna'n destun adolygiad yn dilyn y cyfnod hwnnw. Roedd yn teimlo, ar ôl i'r cyfnod o 2 flynedd ddod i ben, y gallai'r cyflogai yn y swydd ddechrau chwilio am swydd debyg yn rhywle arall sydd â phecyn mwy deniadol. Holodd hefyd a fyddai nifer y cyflogeion a effeithir gan ddarpariaethau'r Polisi, h.y. y rhai sydd â chyflog uwch ac ati, yn cael eu monitro, er enghraifft drwy'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB).

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gofyniad o fewn telerau'r Polisi i gynhyrchu Achos Busnes ar gyfer pob achos, yn seiliedig ar rinweddau unigol yr achos hwnnw ac â chymeradwyaeth gan y Rheolwr priodol yn unol â hynny.

Byddai'r Polisi a'r cyflogeion yr effeithir arnynt yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, ychwanegodd.

O ran cyflog, cafodd y cyfnod adolygu ei gynnwys yn y Polisi fel taliad dros dro yn unig, gan y byddai'n cael effaith ar hawliadau Cyflog Cyfartal fel arall. Roedd lle i ystyried talu taliadau atodol ar sail y farchnad am gyfnod hirach a/neu ffyrdd eraill o edrych ar gadw staff, os byddai angen. Gellid cymhwyso'r Polisi ar gyfer swyddi yn unrhyw ran o'r Awdurdod, ychwanegodd, ond roedd yn rhaid cael digon o dystiolaeth cyn ei gymhwyso.

<u>PENDERFYNIAD:</u> Cymeradwyodd y Cyngor y Polisi Taliadau Atodol ar Sail y Farchnad, yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

591. NEWIDIADAU I AELODAETH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a'i ddiben oedd ystyried y newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a fyddai’n dod i rym yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2022.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad ac eglurodd, er bod gan yr Awdurdod Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eisoes, fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi gwneud hyn yn ofyniad statudol. Mae'r Mesur yn gwneud nifer o ofynion mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, gan gynnwys penodi Cadeirydd a chylch gwaith y Pwyllgor.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bellach wedi rhoi cyfrifoldebau ychwanegol ar ysgwyddau’r Pwyllgor sy'n gysylltiedig â llywodraethu, gan gynnwys ystyried agweddau ar berfformiad a chwynion.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac un Aelod Annibynnol (Lleyg) ar hyn o bryd.

Bydd yr Aelodau'n cofio, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, y bydd yn ofyniad deddfwriaethol o 5 Mai 2022 i draean o aelodaeth y Pwyllgor fod yn Aelodau Lleyg. Cynigir felly bod aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei newid i 12 Aelod, 8 Aelod CBSP a 4 Aelod Lleyg, a bod y Cyngor yn cymeradwyo penodi Aelodau Lleyg ychwanegol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o 5 Mai 2022 ymlaen.

Mae'r canllawiau'n argymell na ddylid penodi Aelod Lleyg am fwy na dau dymor awdurdod lleol llawn. Mae unrhyw Aelod Lleyg sydd â hawliau pleidleisio yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Roedd adrannau nesaf yr adroddiad yn amlinellu'r broses recriwtio ar gyfer Aelodau Lleyg, ymhelaethodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid ar yr agwedd hon er budd y Cyngor, yn ogystal â'r meini prawf i'w mabwysiadu i ddyfarnu a yw ymgeiswyr yn addas i'w rhoi ar restr fer ar gyfer cyfweliad.

Yna, byddai'r ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu cyfweld gan Banel Swyddogion.

Gofynnodd Aelod am gadarnhad y byddai'n rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn Aelod Lleyg yn dilyn Etholiadau'r flwyddyn nesaf ac, os felly, a fyddent yn cael hyfforddiant ar gyfer y rôl. Gofynnodd hefyd pa lefel o daliadau cydnabyddiaeth y byddai'r Aelod Lleyg yn ei chael fel Cadeirydd.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai hyfforddiant helaeth ar gael, yn fewnol gan Swyddogion a hefyd gan ddarparwr allanol, sef CLlLC mae'n debyg.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai’r Cadeirydd yn derbyn cyfradd tâl dyddiol uwch, a’u bod yn dal i ddisgwyl canllawiau statudol ar fanylion hyn ac ar y drefn hyfforddi ar gyfer Aelodau Lleyg, gan gynnwys y Cadeirydd.

PENDERFYNIAD: Bod y Cyngor:

(1) Wedi cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel yr amlinellir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, i ddod i rym yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2022;

(2) Wedi dirprwyo'r broses ar gyfer dewis ac argymell Aelodau Lleyg priodol i Banel Swyddogion sy'n cynnwys y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Archwilio Mewnol;

(3) Yn derbyn adroddiad pellach yn rhoi gwybod am y penodiadau.

592. NODI ADRODDIADAU GWYBODAETH

Rhoddodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol (a Swyddog Monitro) adroddiad ar yr Adroddiadau Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr yr Aelodau at y ddau Adroddiad Gwybodaeth dan sylw, a gynhwyswyd yn yr adroddiad eglurhaol.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi cydnabod cyhoeddiad y dogfennau a restrir yn yr adroddiad.

593. I DDERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN:

**Y Cynghorydd Altaf Hussain i'r Arweinydd**

Arweinydd, mae pob un ohonom yn gorfod ymateb i anghenion sy’n cystadlu a’i gilydd, yr amgylchedd a dyfodol y blaned ac ymateb i argyfwng tai oll ar yr un pryd. A allwch gadarnhau sut y byddwch yn cydbwyso'r angen i ddatblygu ein hamgylchedd a lleihau allyriadau carbon tra hefyd yn ymgysylltu â chymunedau am ddatblygiadau arfaethedig, rhai nad ydynt wastad yn gynlluniau da o reidrwydd?

**Ymateb:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr awdurdod hwn wedi datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2020, a bod y Cabinet wedi creu Rhaglen Ymateb i’r Argyfwng Hinsawdd. Ar ôl cymryd y camau hyn amlygwyd y ffaith fod gan yr awdurdod rôl fel:

• Arweinydd cymunedol – gweithio gyda phreswylwyr, grwpiau a busnesau mewn perthynas â'u defnydd o ynni a pharatoi ar gyfer effeithiau'r hinsawdd
• Darparwr gwasanaethau – i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon o ran adnoddau sy'n llai dwys o ran carbon, i annog mwy o wytnwch ac i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.
• rheolwr ystâd – i sicrhau bod yr ystâd a'i weithrediadau mor effeithlon o ran adnoddau â phosibl, gan ddefnyddio ynni glân a pharatoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Erbyn 2030 rhaid cyrraedd y targed o gael Awdurdodau Lleol carbon sero-net yng Nghymru. Mewn ymateb, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Arweinwyr llywodraethau lleol wedi sefydlu Panel Strategaeth Datgarboneiddio, gyda chefnogaeth pob un o'r 22 awdurdod lleol, LlC, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Phrifysgol Caerdydd. Mae’r Panel Strategaeth Datgarboneiddio, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, wedi diffinio'r meysydd ffocws i gyrraedd carbon sero-net fel a ganlyn:

• Symudedd a Thrafnidiaeth
• Adeiladu ac Ynni

- Defnydd Tir a Bioamrywiaeth
- Caffael

Mae gan y system gynllunio ran allweddol i’w chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, sef datgarboneiddio'r system ynni a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (Polisi Cynllunio Cymru 11, 2021).

Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n gosod cwys ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu sydd â strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a chadernid yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Ar lefel leol, atgyfnerthir y polisi cynllunio cenedlaethol drwy'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), dogfen strategaeth lefel uchel y mae'n rhaid i'r Cyngor ei pharatoi. Mae'r CDLl hefyd yn mynegi gweledigaeth, amcanion llesiant a blaenoriaethau'r Cyngor mewn termau defnydd tir, ac yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r CDLl yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chafodd ymgynghoriad ar y cynllun drafft ei gwblhau yn ddiweddar, a bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei baratoi maes o law.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net ym mis Mai 2021. Mae hyn yn nodi cwmpas a ffiniau manwl allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal â methodoleg gyfrifo gyson ar gyfer pennu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn nesáu at gyrraedd carbon sero net. I gyrraedd sefyllfa lle mae gweithrediadau'r Cyngor yn garbon sero-net, mae'r awdurdod hwn yn ceisio ymgymryd â rhaglen ddatgarboneiddio arloesol a radical ar draws y Cyngor, gan ddatblygu cymorth technegol cywir, gwyddonol a chadarn i’n galluogi i gyflawni'r uchelgais hwn. Mae gwaith ar y gweill i gwblhau adolygiad trylwyr o gwmpas allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal ag adolygiad sylfaenol o allyriadau er mwyn cefnogi'r awdurdod i ystyried a phennu ffin, cyfnod a chwmpas yr hyn a gaiff ei gynnwys yn llinell sylfaen allyriadau nwyon tŷ gwydr yr awdurdod. Bydd hyn yn diffinio ac yn cyfrifo ôl troed carbon cadarn i'w ddatblygu fel y llinell sylfaen ar gyfer y llwybr lleihau a'r map llwybr carbon sero net. Wedi hyn, bydd llwybr lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr eang yn cael ei greu a fydd yn addasu yn ôl data blynyddol i gysoni llwybr lleihau carbon yr awdurdod gyda chytundebau rhyngwladol ar gyllidebu carbon i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac i gyfyngu cynhesu byd-eang ymhell islaw 2 ºC. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu map llwybr carbon sero-net gyda strategaeth a chynllun gweithredu datgarboneiddio cynhwysfawr sy'n nodi'r amcanion a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni carbon sero-net. Bydd hyn yn datblygu cyfres gadarn o brosiectau a gweithgareddau gydag asesiadau manwl a chyfleoedd wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar botensial, costau ac amserlenni arbed carbon.

Mae gan yr awdurdod hwn brofiad o ganolbwyntio ar themâu blaenoriaeth (a) symudedd a thrafnidiaeth (b) adeiladau ac ynni (c) defnydd tir a bioamrywiaeth a (d) caffael. Fel rhan o’u gweithgareddau diweddar ar y themâu hyn mae'r awdurdod wedi sicrhau grant gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i ddatblygu Rhwydwaith Gwres Ardal Pen-y-bont ar Ogwr, wedi sicrhau cyllid drwy'r rhaglen Re:fit i ôl-ffitio 18 o adeiladau, gan osod mesurau arbed ynni megis gosod goleuadau LED newydd, systemau Solar PV a Systemau Rheoli Adeiladu, wedi sicrhau cyllid i blannu targed o 15,000 o goed yn 2021/22, ac wedi derbyn grant o bron i £500k gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Ultra (ULEV) cenedlaethol i wella ei seilwaith gwefru cerbydau trydan gyda'r posibilrwydd o gyllid pellach o £300k drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ogystal â'r prosiectau hyn, mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo mewn perthynas â cham 2, rhesymoli eiddo, drwy ddiweddaru polisi gweithio o’r cartref a datblygu llwybrau teithio llesol, Cynlluniau Metro Plus ar draws y Fwrdeistref a chyfleuster bws cyswllt Metro ym Mhorthcawl.

Er mwyn goruchwylio'r gwaith y mae'n rhaid i'r awdurdod ei wneud yn y presennol ac yn y dyfodol, rydym wedi datblygu strwythur llywodraethu newydd yn fewnol, sef Bwrdd Rhaglen Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030. Ar ôl iddo gael ei sefydlu, bydd Bwrdd Rhaglen Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030 yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Chynulliad Dinasyddion ynghyd â Grŵp Llywio o bartneriaid cyflenwi sydd â diddordeb. Cynhelir ymgysylltiad uniongyrchol â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) i sefydlu synergeddau, adnoddau a rennir a gweledigaeth gyffredin.

Mae'n rhaid i'r system cynllunio defnydd tir gydbwyso'r angen am dwf yn y dyfodol, er mwyn darparu'r cartrefi a'r tir cyflogaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau economi fywiog ac iach tra hefyd yn diogelu asedau naturiol, gan sicrhau cynaliadwyedd a hyrwyddo amgylchedd carbon isel. Un o amcanion allweddol y CDLl yw creu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel drwy sefydlu egwyddorion cadarn o ran creu lleoedd, ac er bod nifer o safleoedd datblygu strategol mawr yn cael eu cyflwyno, rhaid datblygu'r rhain mewn ffordd gynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys datblygu mewn lleoliadau sy'n agos at, neu ar gyrion, aneddiadau presennol sydd eisoes â seilwaith a chysylltiadau da â chanolfannau cyflogaeth a chyfleusterau manwerthu/hamdden/addysg (cymdogaethau 20 munud), cynnwys digon o fannau agored/ardaloedd hamdden gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i deithio llesol a chludiant cyhoeddus, a'r gallu i gartrefi a busnesau gysylltu â rhwydweithiau gwres ardal. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod y CDLl newydd yn cael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn y dyfodol ac osgoi datblygiad tameidiog, heb ei gynllunio.

O'r herwydd, pe caiff ei reoli'n gywir drwy'r system cynllunio defnydd tir a'r CDLl ystyrir y bydd datblygiad Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd targedau lleihau carbon.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Altaf Hussain**

Nid yw cymesuredd y CDLl yn CBSP yn gweithio i gymunedau'r cymoedd, ac mae hynny'n amlwg pan fydd rhywun yn gweld mai ond 14% neu 1,360 o'r 9,200 o gartrefi a gynlluniwyd, sydd wedi'u lleoli mewn cymoedd yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, fel Ogwr a Garw.
Pam fod proses CDLl Pen-y-bont ar Ogwr yn fethiant i gymunedau'r cymoedd, pan mai uwchraddio'r cymoedd yw'r *buzzword* gwleidyddol newydd?

**Ymateb:**

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yn rhaid i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) CBSP, pan gaiff ei gwblhau, fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gredadwy, gan fod yn rhaid iddo gael ei arolygu gan Lywodraeth Cymru. O ran ardaloedd ein cymoedd, yn enwedig yn Ogwr a Garw, roedd cyfyngiadau ar y seilwaith datblygu tai. Er hynny, roedd safleoedd adeiladu tai llai a mwy cyfyngol yn cael eu hannog yn yr ardaloedd hyn. Ychwanegodd bod enghreifftiau o adeiladu datblygiadau preswyl yn ardaloedd y cymoedd, yn Ewenny Road, ym Maesteg ac mewn safle bach ym Metws.

Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau hyn drwy ychwanegu bod y CDLl yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad ardaloedd er mwyn canfod safleoedd Tai Strategol, gan fod rhaid i'r awdurdod lleol gyrraedd targedau penodol Llywodraeth Cymru yma. Ar hyn o bryd roedd yn anodd darparu tai i'r gogledd o'r M4 a'r Groesfan Reilffordd ym Mhencoed, tra bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian i adeiladu ar ddatblygiad Ewenny Road. Roedd datblygwyr safleoedd ac ati yn cael anogaeth gref i ystyried darparu tai mewnlenwi llai yn Ogwr a Garw, yn unol â maint cyfyngedig y safleoedd sydd ar gael yno. Ychwanegodd fod Swyddogion Cynllunio a Datblygu hefyd yn edrych ar yr agenda Creu Lleoedd a gwerth safleoedd tai llai, gan nad oedd pawb

eisiau byw mewn datblygiadau tai mawr. Roedd lleoliadau ar gyfer y rhain wrthi'n cael eu nodi. Roedd y Cyngor hefyd yn gwneud cais am arian i gael gwared ar y Groesfan Reilffordd ym Mhencoed ac i osod pont droed a phont gerbydau yn ei lle. Byddai hyn yn gwella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yno, yn ogystal â rhyddhau safleoedd i'w datblygu i'r gogledd o gyffordd yr M4.

Ategwyd yr uchod gan yr Arweinydd, a ychwanegodd fod Cymoedd Garw ac Ogwr yn gulach na Chwm Llynfi ac wedi'u hamgylchynu gan fynyddoedd a bryniau, ac oherwydd daearyddiaeth a thopograffeg y tir nid oes llawer o dir y gallai datblygwyr adeiladu arno. Croesawodd farn pob Aelod o ran lleoliadau lle gellid ystyried datblygu tai. Roedd y Cyngor hefyd wedi derbyn cyllid grant Tai Cymdeithasol ychwanegodd, gan Lywodraeth Cymru.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau fod yr Awdurdod yn edrych ar ddull 'system gyfan' o weithredu, gan gynnwys ailddefnyddio eiddo gwag mewn ardaloedd lle'r oedd cyflenwad a galw, felly byddai asesiadau o'r farchnad yn cael eu dadansoddi yma, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar angen. Roedd hefyd yn anodd adeiladu ar safleoedd wedi'u halogi, fel y digwyddodd â datblygiad Ewenny Road, nes bod cyllid wedi'i dderbyn i'w liniaru.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas**

O fewn lleoliadau Porth y Cymoedd ceir rhwystrau llai ac achosion o or-ddatblygu na lwyddodd fynd i'r afael â rhai materion capasiti, megis River Bridge, Abergarw Road a'r A4061. A oes gan yr Aelod Cabinet – Cymunedau unrhyw sylwadau i'w gwneud ar sut y gellid gwella'r rhwystrau hyn yn ôl-weithredol, gan fod datblygiad eisoes wedi digwydd mewn lleoliadau fel y rhain.

**Ymateb:**

Gan fod angen ateb eang i hyn, byddai angen ymchwilio a pharatoi'n drylwyr cyn gallu ymateb ag unrhyw sylwedd, dywedodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau y byddai ateb yn cael ei lunio y tu allan i'r cyfarfod a'i anfon at y Cynghorydd Thomas a chyd-Aelodau'r Cyngor cyn gynted â phosibl.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Rod Shaw**

Sut y gallwn fynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran adnoddau, pe gellid ei gyflawni gallai ryddhau llawer o'r safleoedd yn ardaloedd y Cymoedd.

**Ymateb:**

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau nad oedd anghydbwysedd o ran adnoddau mewn gwirionedd, gan nad oedd unrhyw safleoedd mawr yn ardaloedd y Cymoedd ar hyn o bryd lle cynigiwyd datblygiadau. Yn hytrach, roedd CBSP yn edrych ar ddatblygu tai mewn lleiniau mewnlenwi neu drwy ddarparu datblygiadau llai (mewn ffyrdd mwy dyfeisgar efallai) yn lleoliadau Ogwr a Garw er mwyn diwallu'r angen a gofynion y CDLl. Fel rhan o'r ymgynghoriad yma, gwahoddwyd unrhyw un a allai fod â diddordeb i gynnig awgrymiadau o ran Safleoedd Ymgeisiol i adeiladu arnynt.

Ychwanegodd yr Arweinydd nad datganiadau o ddiddordeb gan drigolion, adeiladwyr a datblygwyr a geisiwyd yn unig, ond rhai gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hefyd. Roedd angen edrych ar bob lefel o ddiddordeb, ychwanegodd, yn seiliedig ar safleoedd sydd ar gael a'r angen am dai mewn gwahanol leoliadau.

594. DADL CHWARTEROL - "SUT BYDD GOFAL CYMDEITHASOL YN CAEL EI ARIANNU AR ÔL PANDEMIG COVID?"

Agorodd yr Arweinydd y ddadl ar yr eitem hon.

Cadarnhaodd fod COVID-19 wedi amlygu pa mor hanfodol yw gofal cymdeithasol o ran cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r materion sy'n wynebu gofal cymdeithasol – yn enwedig y cynnydd yn y galw, maint y pwysau ariannu a heriau'r gweithlu – yr un mor bwysig yn awr ag yr oeddent cyn COVID, gyda llawer wedi'u gwaethygu gan y pandemig.

Mae'r angen cynyddol am wasanaethau yn amlwg ar ôl Covid, ac fel y dywedasom wrth y Cabinet ddoe, rydym bellach yn darparu 8% yn fwy o ofal cartref o gymharu â'r adeg hon y llynedd. Mae hyn o ganlyniad i bobl yn gorfod disgwyl cyn cael triniaeth gan y GIG oherwydd y pandemig, dirywiad mewn cyflwr o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud a gwarchod, ac effaith Covid hir. Felly, mae angen llawer mwy o arian i gefnogi lefelau uwch o ofal cymdeithasol dros y 5 mlynedd nesaf.

Yn ei hanfod, mae gofal cymdeithasol yn ymwneud yn bennaf â pherthnasoedd dynol a chefnogi anghenion gofal a chymorth unigolion a'u teuluoedd, gan gynnwys pobl hŷn, y rhai sy'n agored i niwed, a'r rhai ag anghenion cymhleth, fel bo modd iddynt wella ansawdd eu bywyd. Dylai trafodaethau am ddyfodol gofal cymdeithasol ymwneud â gwella ansawdd gofal a sicrhau canlyniadau i'r unigolyn, yn seiliedig ar 'yr hyn sy'n bwysig iddynt'. Mae hyn yn dechrau ar lefel leol a dylai adeiladu ar gryfder awdurdodau lleol yn eu hardal a'u cymuned, gan fynd i'r afael ag anghenion unigolion a theuluoedd, meithrin gwydnwch a chanolbwyntio ar les.

Mae iechyd a gofal cymdeithasol cyn bwysiced â'i gilydd, ac yn aml maent yn dibynnu ar ei gilydd o ran sicrhau llif drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai penderfyniadau a blaenoriaethau ar gyfer dyfodol y gwasanaethau adlewyrchu hynny, yn ogystal â'r angen i gynllunio a chydweithio, gan ymgorffori dulliau llawer mwy ataliol o ymdrin â lles sy'n gweithio'n agos gydag iechyd y cyhoedd a thai. Cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i gynnull partneriaethau'n lleol i ddod â'r gwasanaethau hyn at ei gilydd mewn modd sydd â ffocws lleol ac sy'n cael ei harwain yn ddemocrataidd.

Wrth ystyried dyfodol gofal cymdeithasol a chymorth, dylid mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sydd â mwyaf o frys fod yn gyntaf, mae'r rhain yn cynnwys:

- Darparu cyllid cynaliadwy hirdymor sy'n ddigon i fodloni'r gofynion ychwanegol rhagweladwy ar ofal cymdeithasol sy'n cael eu gyrru gan bwysau demograffig a phwysau eraill, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym.
- Yr angen am gyllid ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion sydd heb eu diwallu. Mae angen rhoi mwy o werth ar ddulliau o ymdrin â gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cydnabod ysfa pobl i barhau i fyw yn eu cymunedau, yn eu cartrefi yn bennaf, a hynny gydag ystyr a phwrpas.
- Gwella canlyniadau i blant. Mae heriau sylweddol o hyd o ran darparu'r lleoliadau cywir i blant mewn gofal, yn enwedig i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn lleol. Mae'r 18 mis diwethaf hefyd wedi rhoi llawer o blant a theuluoedd dan bwysau a straen aruthrol, gyda phryderon ynglŷn â 'niweidion cudd' cynyddol yn ogystal â dysgu a gollwyd, ac effaith ymbellhau cymdeithasol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc ac ar eu hiechyd a'u lles meddyliol ac emosiynol hefyd.
- mae gwerth a buddsoddiad yn y gweithlu gofal cymdeithasol hefyd yn fater brys, mae angen gwerthfawrogi'r angen am barch cydradd â

gweithwyr y GIG, gan gynnwys sicrhau bod y gweithlu'n cael ei wobrwyo'n briodol ac yn deg am y gwaith amhrisiadwy y maent yn ei wneud a bod ganddynt lwybr at ddilyniant gyrfa o fewn sector gofal proffesiynol.

- Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, pan fo gofal cymdeithasol o'r diwedd yn cael ei ystyried yn bartner cyfartal i'r GIG. Mae hyn yn gofyn am ymddiriedaeth mewn llywodraeth leol a'u grymuso i ddarparu a diwallu anghenion cymunedau lleol a chyflymu'r symudiad oddi wrth systemau iechyd sy'n canolbwyntio ar ysbytai a thuag at rhai lle mae systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar gymunedau mewn lleoliadau penodol; gwasanaethau a lles sylfaenol a chymunedol, gan fynd i'r afael ag anghenion iechyd corfforol, iechyd meddwl a chymdeithasol pobl gyda'i gilydd.

Wrth edrych ar ddyfodol gofal a chymorth, mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd hyrwyddo 'egwyddor sybsidiaredd' fel nodwedd sylfaenol angenrheidiol o iechyd, gofal a lles effeithiol ac ystyried sut y gellir atgyfnerthu hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol fel rhan o'r system.

Mae diffygion y model ariannu presennol ar gyfer gofal cymdeithasol bellach yn hysbys iawn ac mae angen mawr am fuddsoddiad amser ac adnoddau i sicrhau cydlyniad ac i gynllunio system sy'n gallu bodloni gofynion gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae canfod ateb cynaliadwy hirdymor i'r dull o ariannu gofal cymdeithasol yn hanfodol os ydym am ddarparu system sy'n cael ei threfnu o amgylch yr unigolyn a'i deulu ac sy'n diwallu eu hanghenion ac yn hyrwyddo eu lles gyda gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel.

O ystyried yr heriau economaidd difrifol sy'n wynebu Cymru a'i chymunedau, mae cynghorau eisoes wedi galw am raglen fuddsoddi uchelgeisiol mewn sawl rhaglen gyfalaf a allai helpu i ailadeiladu cymuned ac economi Cymru. Mae dal angen buddsoddi yn ein seilwaith gofal cymdeithasol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau bod adeiladau'n cyrraedd safonau modern. Datblygwyd cyfleusterau 'gofal ychwanegol' hefyd gan nifer o awdurdodau lleol gan gynnwys yn CBSP, ym Maesteg, Tŷ Llwyn Derw, Tŷ Ynysawdre a Llys Ton, Mynydd Cynffig.

Credwn fod lle i fuddsoddi ymhellach yn y rhain pe bai cyfalaf a refeniw ar gael ar lefel genedlaethol. Mae menter Ysgolion yr 21ain Ganrif yn darparu model y gellid ei ddefnyddio i gefnogi rhaglen waith a ddyfeisiwyd ar y cyd o fuddsoddiad hirdymor i wella a datblygu ein seilwaith gofal cymdeithasol.

Mae llywodraeth leol wedi bod yn gefnogol ar y cyfan i'r ymrwymiadau a wnaed yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol ac sydd wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddod o hyd i ateb ariannu cynaliadwy sy'n ein galluogi i ddiwallu ein hanghenion gofal hirdymor, rhywbeth y mae llywodraeth leol wedi bod yn galw amdano ers tro.

Mae'r cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU ar 7 Medi, a nododd eu cynlluniau ar gyfer gofal iechyd, gofal cymdeithasol i oedolion a'u cynllun ariannu, yn golygu y bydd Cymru'n elwa o tua £700m o'r arian ychwanegol a godwyd. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn rhoi cyfle sylweddol i Gymru ddiwygio'r system gofal cymdeithasol a helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau brys a nodir. Mae mwy o fuddsoddiad yn dod â chyfleoedd i ddatblygu atebion hirdymor cynaliadwy.

Mae llywodraeth leol, drwy CLlLC, yn parhau i gwrdd a thrafod â Gweinidogion yn rheolaidd er mwyn helpu i lywio meddylfryd Llywodraeth Cymru ar sut y gellid defnyddio'r cyllid ychwanegol, gan adlewyrchu uchelgais a blaenoriaethau llywodraeth leol ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, mae Llefarwyr CLlLC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i gyfarfod â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i dynnu sylw at y pryderon cynyddol am y pwysau sy'n bodoli ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, ac i geisio trafodaethau ar gamau gweithredu posibl yn awr, rhai y gellid eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n cael eu nodi ar hyn o bryd ar draws y Cyngor.

Fel rhan o hyn credwn fod angen datblygu dull cytbwys sydd ddim yn rhoi blaenoriaeth i un rhan o'r system dros y llall wrth ymdopi â'r pwysau sy'n wynebu gofal cymdeithasol ac iechyd yn y tymor byr a'r tymor hir, lle bydd iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu trin yn gydradd gan y gyllideb,  lle cydnabyddir bod iechyd a gofal cymdeithasol yn bartneriaid cyfartal yn y dyhead i ddarparu un system iechyd a gofal cymdeithasol di-dor ar gyfer Gymru, wedi'i threfnu o amgylch yr unigolyn a'i deulu.

Nid yw llywodraeth leol eisiau bod mewn sefyllfa lle rydym yn cystadlu ag iechyd am fuddsoddiadau mewn gwasanaethau lleol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a lles ein dinasyddion. Rydym yn bartneriaid ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau, er ein bod i gyd yn gwybod y gallem wneud mwy, ac y dylem wneud mwy, i sicrhau bod gwasanaethau di-dor o safbwynt y dinesydd. Ond rhaid cydnabod a mynd i'r afael â'r ffaith anffodus nad yw'r cyhoedd yn deall nac yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol a'n partneriaid, ddim yn yr un modd ag y mae dinasyddion yn gweld y GIG – adlewyrchir hyn yn y ffaith bod y cyhoedd yn deall yr angen am fuddsoddiad pellach mewn iechyd ond nad ydynt yn galw am yr un buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol. Rhaid inni barhau i godi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd am werth gofal cymdeithasol a'i effaith ar les ac annibyniaeth pobl.

Nododd Aelod fod pob awdurdod lleol a'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi newid eu harferion recriwtio. Ag yntau wedi gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol, eglurodd pa mor werthfawr yw hyn, h.y. y berthynas yr ydych yn ei hadeiladu, eich bod yn dod yn bresenoldeb cyson sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau bob dydd pobl. Er gwaethaf hynny i gyd, yr oeddem yn wynebu'r argyfwng recriwtio a chadw staff mwyaf mewn cof byw.

Dywedodd fod gofal cymdeithasol yn y wlad hon wedi'i danariannu ers degawdau ac mae canlyniadau hynny i'w gweld yn awr, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a nifer sylweddol o bobl yn byw yn hirach gydag anghenion iechyd.

Mae cyflog teg am ddiwrnod teg o waith, yn deg. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n wir yn aml. Yn ystod y 18 mis diwethaf mae cydweithwyr gofal cymdeithasol wedi gwneud yn eithriadol o dda, ond dyw eu cyflogau ddim yn adlewyrchu hynny. Er bod llawer o ddarparwyr trydydd sector a phreifat sy'n gyfrifol ac yn foesol, mae rhwymedigaethau cytundebol rhai yn dal i fod yn llai na ffafriol, er enghraifft pan fo gweithwyr yn gorfod talu am eu gwisgoedd eu hunain, neu pan nad yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei dalu.

Dywedodd fod angen gwella cyflogau, mae angen gwella telerau ac amodau ac mae angen gwella'r cyllid ar gyfer y system.

Nid yw'n syndod bod pob llywodraeth olynol ers 1996 yn y DU wedi comisiynu saith papur polisi, pum ymgynghoriad, a phedwar adolygiad annibynnol i ofal cymdeithasol. Mae llywodraethau olynol yn y DU hefyd wedi anwybyddu'r argymhellion ac nid ydynt

wedi bwrw iddi i sicrhau bod system iechyd a gofal cymdeithasol unedig, lle nad oes neb yn disgyn rhwng y bylchau.

Eglurodd bod achos i edrych arno yma, arbedion maint.

Soniodd yr Arweinydd mai Cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal ac, er nad oedd yn anghytuno â'r egwyddor hon, tybiodd a oedd cyfaddawd lle gellir dyfeisio a darparu pecynnau'n lleol, ond efallai eu bod yn cael eu goruchwylio ar sail fwy rhanbarthol. Roedd yn deall yn iawn nad yw mwy gwastad yn well o ran darparu gwasanaethau a chreu canlyniadau, ond credai fod angen ei ddadansoddi ar sail debyg i ôl troed economaidd Cymru o ran cytundebau rhanbarthol.

Aeth ati i herio Llywodraethau'r DU a Chymru i edrych yn rhyngwladol a dysgu gan eraill, yn arbennig, ein cymdogion yn Sgandinafia sy'n cydnabod ac yn ariannu eu system gofal cymdeithasol ac iechyd yn briodol, yn yr achos hwn hyd at ddwywaith cymaint ag y mae'r DU yn ei wneud ar hyn o bryd. Dyna ran o'r rheswm bod pobl Sgandinafia â'r ansawdd bywyd gorau yn y byd.

Nododd Aelod nad oedd yn arbenigwr ym maes Gofal Cymdeithasol, ac nid oedd ganddo'r atebion o ran atebion hirdymor cynaliadwy o ran darparu cymorth digonol yn y maes gwaith hollbwysig hwn. Rhoddodd ei deyrnged i'r staff i gydnabod eu hymdrechion eithriadol yn ystod y pandemig.

Er mai testun y ddadl heddiw oedd sut y gellir ariannu Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol, roedd Covid-19 yn ddi-os wedi dangos pa mor fregus oedd y system Gofal Cymdeithasol yn ei chyfanrwydd ac y dylai'r profiad fod yn gatalydd ar gyfer rhywfaint o newid.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddai ariannu'r system yn y dyfodol yn heriol a hyd yn oed pe bai gwariant blynyddol ar Ofal Cymdeithasol yn cynyddu o 6%, fel y gwnaeth rhwng 2017 a 2019, annhebygol y byddai hynny'n ddigon i ariannu'r galw am Ofal Cymdeithasol yn y dyfodol. Felly, os bydd y galw hwn yn parhau, fel y disgwylid, ac os bydd pwysau ariannol a phwysau gweithlu hefyd yn cynyddu, byddai mwy o angen nag erioed am ateb i'r problemau cyffredinol.

Roedd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar uno Iechyd a Gofal Cymdeithasol a cheisio atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu yn y lle cyntaf. Credai felly, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, ein bod yn debygol o weld cynnydd pellach yn yr angen am gymorth Gofal Cymdeithasol, a bod canfod rhagor o lwybrau ariannu ar gyfer rhoi mesurau ataliol ar waith yn hanfodol i'r Awdurdod hwn.

Roedd Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar Ofal Cymdeithasol yn ddiweddar a ganfu fod rhai Cynghorau wedi ehangu eu gwasanaethau ataliol drwy ddechrau newid oddi wrth Ofal Cymdeithasol fel y cyfryw tuag at ddarpariaeth ataliol a chymunedol. Ond er mwyn gwneud y cam hwn yn llwyddiannus, roedd angen cael mesurau ataliol digonol ar waith yn y lle cyntaf.

Gofynnodd felly, pa mor dda yr oedd y Cyngor yn perfformio o ran darpariaeth ataliol a chymunedol, darpariaeth a fydd yn y pen draw yn lleddfu'r pwysau ym maes Gofal Cymdeithasol, a holodd hefyd sut y bydd cyllid yn cael ei ddargyfeirio yn y dyfodol i gefnogi mesurau ataliol gan barhau i ymateb i anghenion Gofal Cymdeithasol mwy uniongyrchol ein preswylwyr.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod ariannu Gofal Cymdeithasol yn ystyriaeth wleidyddol sydd wedi arwain at wneud penderfyniadau gwleidyddol pwysig iawn, yn y gorffennol a'r presennol. Byddai hyn yn sicr o barhau i fod yn wir yn y dyfodol hefyd.

Un o'i dyletswyddau fel Swyddog Statudol oedd sicrhau bod gan y Cyngor y lefel angenrheidiol o adnoddau i roi cefnogaeth ddigonol i'r dyletswyddau statudol o ran darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Lles. Roedd Lles yn faes lle gwnaeth yr Awdurdod gynnydd sylweddol o ran cyflawni ei Amcanion Llesiant, a hynny trwy'r Cyngor ei hun a thrwy rai cynlluniau arobryn ac enghreifftiol gyda phartneriaid yn y trydydd sector, megis y cynllun 'Super Agers' . Fodd bynnag, roedd mwy o waith i'w wneud, gan gynnwys llunio Achos Busnes er mwyn symud at wasanaethau mwy ataliol, sy'n hollbwysig wrth symud ymlaen.

O safbwynt proffesiynol, roedd am ddweud bod dal angen buddsoddi mewn darpariaeth Gofal Cymdeithasol yn ogystal â gwasanaethau ataliol, o ganlyniad i'r pandemig a chyn hyn.

Cyn Covid-19, roedd awdurdodau lleol yn dal i ddod i delerau â chefnogi poblogaeth sy'n heneiddio, cymhlethdod anghenion, yr unigolion hynny ag anabledd a'r rhai sydd, wrth heneiddio, yn datblygu problemau iechyd. Ychwanegwyd rhagor ar y llwyth o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys gofynion cymorth Covid Hir, oedi cyn cael triniaeth ar gyfer hyn ac anhwylderau a chlefydau meddygol eraill. Roedd pobl hefyd wedi cael cyfnodau hir o unigrwydd yn ystod Covid, ac wrth warchod hefyd, a'u cyflwr yn dirywio o ganlyniad i fod yn segur am gyfnodau hir yn ystod y cyfnod clo. Felly roedd angen dull gweithredu ar y cyd o ran buddsoddi mewn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac ataliol yn y dyfodol, yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, yn enwedig ers y pandemig.

Roedd hi'n credu bod buddsoddi hefyd yn flaenoriaeth, er mwyn mynd i'r afael â chadernid y gweithlu Gofal Cymdeithasol a oedd yn cyrraedd pwynt tyngedfennol, oherwydd heriau cyffredinol o ran recriwtio a chadw staff. Roedd yn rhaid datblygu llwybrau gyrfa i liniaru hyn, megis sefydlu strwythurau cyflog a graddio mwy effeithiol. Mae ADSS Cymru wedi gweithio gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru a CLlLC i ystyried y ffordd orau o fuddsoddi mewn Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd hyn, os caiff ei wireddu, yn rhoi gofal o ansawdd gwell ac yn arwain at ganlyniadau gwell i'r rhai sy'n ei dderbyn.

Dychwelodd yr Arweinydd at rai o'r pwyntiau a wnaed yn gynharach yn y ddadl. Roedd yn falch o gadarnhau bod atebion rhanbarthol i broblemau rhanbarthol o ran Gofal Cymdeithasol yn cael eu hystyried, a hynny trwy waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ar y cyd â Chynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr a'r trydydd sector, mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau ar y lefel honno, gan ddefnyddio mentrau fel cyllid ICF Llywodraeth Cymru.

Roedd materion fel telerau ac amodau staff hefyd yn cael eu hystyried gyda chymorth partneriaid, gan gynnwys cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol fel isafswm cyflog i staff Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd problem gan nad oedd aelodau o'r cyhoedd sy'n chwilio am waith yn dangos yr un diddordeb yn y math hwn o waith ag yr oeddent o'r blaen. Hefyd, i ddwysáu hynny, roedd y sector preifat yn dal i gynnig gwell telerau ac amodau yn y maes hwn a meysydd cyflogaeth tebyg eraill. Roedd hyn wedi arwain ar brinder llafur ar draws yr economi o fewn amgylchedd cystadleuol. Arweiniodd hyn i gyd at drafferthion o ran recriwtio a chadw'r gweithlu.

O ran cymorth ariannol, tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith bod cyfle gwirioneddol yma, gyda chyllid o £800m wedi'i ymrwymo i Gymru, a theimlai y dylai gael ei ganolbwyntio ar Ofal Cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau ataliol, yn ogystal â'r GIG, yn seiliedig ar resymau cydraddoldeb ac angen. Roedd llwybrau cymorth Gofal Cymdeithasol Statudol yn parhau i fod ar gael, ychwanegodd, ac yn bwysig iawn roedd cymorth o'r fath hefyd yn parhau i gael ei ddarparu yng nghartrefi'r rhai sy'n ei dderbyn ac mewn lleoliadau cymunedol hefyd.

Dywedodd Aelod nad oedd yn anghytuno â rhai o'r pwyntiau a wnaed heddiw ar yr eitem hon o fusnes ac roedd yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwobrwyo staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Roedd wedi gweld darparwyr gofal yn gwneud elw hawdd ar bwrs y cyhoedd, a hynny oherwydd eu bod yn gwrthod yr holl becynnau gofal cymhleth sydd eu hangen. Roedd y ddadl heddiw wedi cynnwys gwahaniaeth cyflog a thelerau amodau staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'i gymharu â staff y GIG. Mae staff y GIG â hawl i gael 41 diwrnod o wyliau bob blwyddyn, ac roedd codiad cyflog o 4% wedi'i gynnig iddynt.

Telir staff Llywodraeth Leol yn ôl y llyfr Gwyrdd, ac fe'n hysbyswyd nad yw ein cyflogwyr am drafod ymhellach ynglŷn â'r hawliad cyflog eleni, sef 1.75%, sy'n annerbyniol, o ystyried bod unrhyw beth llai na 5.6% yn gyfystyr â thoriad cyflog. Roedd y rhan fwyaf o'r staff mewn swyddi rhan-amser hefyd, yn y Gwasanaeth Iechyd eto yn aml, ychwanegodd.

Daeth Aelod i'r casgliad drwy ddweud pa mor bwysig oedd cynnal ansawdd a maint y staff ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan fod gweithwyr yno'n wynebu amodau anodd. Roedd nifer sylweddol ohonynt hefyd yn gweithio llawer o oriau ychwanegol ar ben yr amodau gwaith caled hyn, oherwydd lefelau salwch uchel y gweithlu sy'n deillio o bwysau gwaith, a oedd wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig.

595. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:32